

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNNWYS

CROESO I GYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR
TUDFUL 2020-2024 3

AMDANOM NI	5
EIN GWELEDIGAETH, EIN GWERTHOEDD A'N HAMCANION	6
DIBEN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024	8
EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB AR GYFER 2020-2024.....	13
THEMA: YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD CYNHWYSOL.....	14
AMCAN: YMGYSYLLTU Â'N DINASYDDION I GYFRANOGI A SICRHAU BOD EU LLEISIAU'N CAEL EU CLYWED I DDEALL AC YMATEB I ANGHENION EIN CYMUNEDAU.....	14
THEMA: CYDLYNIANT CYMUNEDOL.....	16
AMCAN: HYRWYDDO A HWYLUSO CYMUNEDAU CYNHWYSOL, DIOGEL A CHYDLYNOL.....	16
THEMA: CREU GWEITHLU AMRYWIOL A CHYNHWYSOL	17
AMCAN: CREU GWEITHLU CYNHWYSOL AC AMRYWIOL SY'N ADLEWYRCHU'R CYMUNEDAU YM MERTHYR TUDFUL.....	17
THEMA: RHYWEDD/CYFLOG CYFARTAL	18
AMCAN: SICRHAU TEGWCH O RAN CYFLOG AR DRAWS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL.....	18
THEMA: GWASANAETHAU HYGyrch	19
AMCAN: DEALL A DILEU'R RHWYSTRAU Y MAE POBL YN EU HWYNEBU WRTH DDEFNYDDIO EIN GWASANAETHAU.....	19
DATBLYGU'R AMCANION	20
CYFLAWNI, MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN.....	21
GWYBODAETH YCHWANEGOL.....	22
CRYNODEB O'R AMCANION A'R CAMAU GWEITHREDU	23

CROESO I GYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL 2020-2024

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Diben y Cynllun hwn yw gwella cyfle cyfartal yn ein cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau, cyflogaeth, comisiynu, arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth.

Rydym am gael Bwrdeistref Sirol lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal a theg ym mhob agwedd o'u bywydau; lle nad oes neb yn cael ei wahaniaethu yn ei erbyn, neu ei roi o dan anfantais oherwydd ei gefndir neu ei hunaniaeth.

Ein Gweledigaeth o ran Cydraddoldeb ym Merthyr Tudful yw:

"Man lle y gwerthfawrogir ac y perchir amrywiaeth a lle y gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial yn rhydd rhag gwahaniaethu a rhagfarn."

Fel Cyngor, mae gennym ddyletswydd i daclo a herio gwahaniaethu ac anfantais fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel rhag aflonyddwch a bod gan bawb fynediad i wasanaethau o ansawdd uchel. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol i bobl ym Merthyr Tudful.

Gan adeiladu ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, byddwn yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a rhannu syniadau ac arfer da gyda phartneriaid a darparwyr gwasanaethau eraill. Byddwn yn parhau i fireinio a datblygu ein gwasanaethau, gan gynnwys eu systemau monitro eu hunain, er mwyn ein helpu i ddeall ein staff a'r cymunedau lleol ehangach ac anghenion amrywiol ein cymunedau yn well.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd a chyflogwr, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth mewn unrhyw ffordd y gallwn i wella lles y fwrdeistref sirol.

Mae'r gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu yn dangos yn glir ein hymrwymiad cadarn i ddileu pob math o wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl sy'n ymweld, sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful.

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu dangos ym mhob agwedd ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ac o fewn ein harferion gwaith.



Cynghorydd Lisa Mytton

Arweinydd y Cyngor a'r
Hyrwyddwr Cydraddoldeb



Ellis Cooper

Prif Weithredwr

AMDANOM NI

Lleolir Merthyr Tudful yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd sydd ag arwynebedd o tua 11,100 hectar. Mae tua un rhan o bump o'r fwrdeistref sirol yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r Gogledd, gan adael tua 8,675 hectar o dir o dan reolaeth gynllunio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth o 60,183. Mae'r brif dref yn cynnwys canolfan masnachu, manwerthu a gwasanaeth y fwrdeistref sirol gyda pharciau manwerthu wedi eu lleoli yng Nghyfarthfa a Phentrebach. Mae yna ysbyty a gwasanaethau a chyfleusterau eraill sy'n gwasanaethu aneddiadau cyfagos.

Mae Merthyr Tudful yn cyflawni rôl strategol allweddol yng nghanol rhanbarth Blaenau'r Cymoedd, gan elwa ar lefelau hygrychedd uchel drwy ei leoliad ar y groesffordd rhwng coridorau trafndiaeth strategol yr A470 (T) a'r A465 (T) i'r Gogledd, a'r coridorau trafndiaeth strategol A470 (T) a'r A472 i'r De. Dim ond 25 munud yw'r fwrdeistref sirol i'r gogledd o Gaerdydd a choridor yr M4.

Mae'r Cyngor yn gweithredu system Arweinydd a Gweithrediaeth Cabinet. Mae hwn yn cynnwys yr Arweinydd a phum Aelod Cabinet. Mae gan y Cyngor un ar ddeg o adrannau etholiadol a gynrychiolir gan 33 o gynghorwyr etholedig. Mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Prif Swyddogion, Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phenaethiaid Gwasanaeth o fewn y Ganolfan Gorfforaethol. Mae'r TRhC yn goruchwyllo'r gwaith o reoli busnes y Cyngor yn strategol.

Yr Awdurdod Lleol yw'r cyflogwr mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol sydd â thua 2,300 o aelodau staff ar hyn o bryd. Fe'u cyflogir i amrywiaeth o rolau gwahanol o fewn pum gwasanaeth fel y rhestrir isod, ynghyd â staff mewn ysgolion.

Dyma bum gwasanaeth y Cyngor:

- Gwasanaethau Corfforaethol
- Y Dechrau Gorau i Fywyd
- Bywyd Gwaith
- Lles Amgylcheddol
- Byw'n Dda

Mae dau brif adeilad Cyngor o fewn y fwrdeistref sirol. Mae un o fewn prif ganol y dref (y Ganolfan Ddinesig) ac mae'r llall wedi'i leoli ym Mhentre-bach (Uned 5). Defnyddir y ddau fel lleoliadau canolog ar gyfer gwasanaethau o fewn y fwrdeistref sirol.

Mae gan y Cyngor weledigaeth gyffredin gyda phartneriaid o bob rhan o'r fwrdeistref sirol ac mae'n cyd-fynd â'n hamcanion rhanbarthol ar gyfer Cwm Taf. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau.

EIN GWELEDIGAETH, EIN GWERTHOEDD A'N HAMCANION

Ein gweledigaeth a rennir ar gyfer Merthyr Tudful yw;

"Cryfhau safle Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle y gellir ymfalchïo ynddo;

- Mae pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau
- Mae pobl yn byw, gweithio, cael bywyd diogel, iach a bodlon,
- Mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd"

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfres o werthoedd craidd ac ymddygiadau cysylltiedig, sef;

- Gonestrwydd a Bod yn Agored
- Ymddiriedaeth a Pharch
- Atebolrwydd
- Dysgu
- Dyhead
- Gweithio Mewn Tîm
- Cyfathrebu

Sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin a chyflawni ein nodau?

Mae'r Cyngor wedi datblygu pedwar amcan sy'n rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Amlinellir y rhain yn y tabl isod:


CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL – Ein Cynllun Corfforaethol

Y DECHRAU GORAU I FYWYD	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac maent yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.
BYWYD GWAITH	Mae pobl yn teimlo y cânt eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau gyda seilwaith diogel sy'n datblygu, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan atyniadol.
LLES AMGYLCHEDDOL	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.
BYW'N DDA	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu â nifer o strategaethau, cynlluniau, polisiau, fframweithiau a deddfwriaeth allweddol eraill, o fewn y Cyngor a Chymru gyfan. Dyma rai enghreifftiau (ond nid yw hwn yn restr gyflawn);

- Canolbwyntio ar y Dyfodol 2017-2022
- Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Mwy na Geiriau Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru
- Cymraeg 2050 (Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)

Mae'r diagram isod yn rhoi crynodeb o Weledigaeth y Cyngor a Rennir yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd ag amcanion rhanbarthol a blaenoriaethau gwleidyddol lleol.




DIBEN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi'i ddatblygu i adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol fel y'u gwelir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cynllun hwn yn disodli'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2016. Mae'n tynnu sylw at gysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymdrin â Safonau'r Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae hyn yn parhau â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn hyrwyddo ein hymrwymiad i sicrhau bod gennym gymunedau cynhwysol heb unrhyw wahaniaethu.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010, DYLETSSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS A'R NODWEDDION GWARCHODEDIG

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd ei nodwedd warchodedig. Mae naw nodwedd warchodedig wedi'u rhestru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:



Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd a disodli'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol mewn un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio ag ef. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân ar sail cydraddoldeb hil, anabledd a rhyw.

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun polisiâu a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, rhaid i ni ystyried y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei wahardd
- Hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu Nodwedd a Ddiogelir perthnasol a phobl heb un o'r nodweddion hynny
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno

Wrth hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt, rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn:

- Dileu neu leihau'r anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.
- Annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Diwallu anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu.

Y Dyletswyddau Penodol

Yng Nghymru, rydym wedi gosod dyletswyddau statudol penodol sy'n nodi pa gamau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn cydymffurfio. Pwrpas cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder. Cyhoeddwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2011 ac maent yn cwmpasu'r canlynol:

Amcanion	Asesu effaith	Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
Gwybodaeth gydraddoldeb	Ymgysylltu	Adroddiad blynyddol
Adolygiad	Gwybodaeth gyflogaeth	Hygyrchedd
Gwahaniaethau cyflog	Cyhoeddi	Hyfforddiant staff
Adroddiadau Gweinidogion Cymru	Caffael	

Yr hyn y mae'r ddyletswydd yn ei mynnu ar Amcanion Cydraddoldeb

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- Cyhoeddi amcanion i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a pha mor hir y mae'n disgwyl eu cymryd i fodloni pob amcan.
- Gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion a monitro effeithiolrwydd ei ddull o weithredu.
- Rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb a ddelir ganddi wrth ystyried beth ddylai ei hamcanion cydraddoldeb fod.

Amcanion ar wahaniaeth cyflog

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- Rhoi sylw dyledus i'r angen i gael amcanion i fynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau cyflog sy'n ymddangos yn rhesymol debygol o fod yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig.
- Cyhoeddi amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodwyd neu gyhoeddi rhesymau pam nad yw wedi gwneud hynny.


DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015


Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o arferion gweithio a darparu gwasanaethau.

Rhaid i ni wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae angen i ni ymgorffori'r nodau hyn yn ein holl waith, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Rhaid i ni *'weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni gymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ein gwaith;






Defnyddiwyd yr egwyddorion hyn i lywio'r broses o ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob amcan.

Caiff yr asesiad o'r pum ffordd o weithio ei gynnwys o fewn Asesiad Effaith Integredig y Cyngor, sydd hefyd yn cynnwys asesiad o'r Amcanion Llesiant, nodweddion gwarchodedig a bioamrywiaeth. Caiff pob penderfyniad a wneir gan y Cyngor ei asesu yn erbyn y naw nodwedd warchodedig.

Mae adroddiadau allanol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cefnogi a dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb.

A YW CYMRU'N DECACH? 2015 – COMISIWN CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Nododd yr adroddiad hwn nifer o heriau allweddol o ran cydraddoldeb a hawliau dynol i Gymru. Roedd yn edrych ar 7 her allweddol;



- Cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.
- Annog recriwtio, datblygiad a thâl teg mewn cyflogaeth.
- Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynus.
- Cynyddu mynediad at gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd.
- Gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.
- Atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael mewn gofal a chadw.
- Dileu trais, cam-drin ac aflonyddwch yn y gymuned.


Yn ôl yr adroddiad, bydd yr heriau'n galw am ymdrechion sylweddol gan sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac unigolion i'w lleihau.

A YW CYMRU'N DECACH? 2018 – COMISIWN CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun cyflawn o gyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru. Mae'n edrych ar draws pob maes bywyd, gan gynnwys,

- Addysg
- Gwaith
- Safonau byw
- Mewn materion iechyd
- Cyfiawnder a diogelwch
- Cymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'n nodi ystod eang o argymhellion i fynd i'r afael â'r heriau allweddol o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae'n nodi bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ond mae rhagor o waith i'w wneud.



Prif ffocws y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fydd anfantais economaidd-gymdeithasol, anabledd, rhyw a hil.

Mae'r amcanion wedi'u datblygu i gyd-fynd â chanfyddiadau'r ddau adroddiad *A yw Cymru'n Decach? 2015* ac *A yw Cymru'n Decach? 2018*.

MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan osod rhwymedigaeth ar gyrff y sector cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn y bôn, mae i'r Mesur yr un gofyniad â Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Rhaid i ni drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.



Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â chyfres o Safonau Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Rhoddwyd y rhain i'r cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae 176 o safonau ac mae'r hysbysiad cydymffurfio yn nodi pa safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu disgwylidig.

Mae'r safonau wedi'u rhannu'n bedair thema:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Gweithredol
- Cadw Cofnodion
- Llundio Polisi

Nid yw'r Gymraeg yn dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond mae agendâu polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn llywio'i gilydd. Mae'r Gymraeg hefyd wedi'i chynnwys o fewn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Cymru lle ceir diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae'r iaith Gymraeg yn elfen allweddol o agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddilyn yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- Mae gan unigolion yr hawl i ddelio â ni yn Gymraeg
- Rhaid lleoli'r Gymraeg i'w darllen yn gyntaf (i'r chwith neu uwchben y Saesneg)
- Hawliau iaith i staff
- Mae ansawdd y gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig
- Mae'n rhaid i ni gynnig gwasanaethau Gymraeg er mwyn rhoi dewis iaith.

EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB AR GYFER 2020-2024

Wrth ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb rydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau a'n gweithlu. Rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio ein hamcanion, gan gynnwys edrych ymlaen at ystyried newidiadau posibl yn y dyfodol y mae angen i ni eu hystyried wrth asesu effaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ddechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Bydd ein dull o gyflawni'r ddyletswydd hon yn cael ei lywio gan ddatblygiadau ar lefel genedlaethol. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn ein harferion gwaith er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp nodweddiadol gwarchodedig a bydd yr amcanion yn ein helpu i barhau i wneud hyn.

Nodir y themâu a'r amcanion rydym wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn y tabl isod:

THEMA	AMCAN
Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol	Ymgysylltu â'n dinasyddion i gyfranogi a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed i ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau.
Cydllyniant Cymunedol	Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol	Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.
Rhywedd/Cyflog Cyfartal	Sicrhau tegwch o ran cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
Gwasanaethau Hygyrch	Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Cafodd y thema 'gwasanaethau hygyrch' ei chynnwys yn dilyn yr ymgynghoriad gan fod hygyrchedd yn cael ei godi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym wedi gwrando ar ein gweithlu a'r gymuned ac wedi cynnwys yr amcan ychwanegol hwn. Rydym hefyd wedi sicrhau ein bod yn integreiddio ac yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

THEMA: YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD CYNHWYSOL
AMCAN: YMGYSYLLTU Â'N DINASYDDION I GYFRANOGI A SICRHU BOD EU LLEISIAU'N CAEL EU CLYWED I DDEALL AC YMATEB I ANGHENION EIN CYMUNEDAU.
Mae ymgysylltu â'r gymuned, cynhwysiant a chyfranogiad yn hanfodol i'r Cyngor wrth gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer y gymuned. Heb wybod mwy am y bobl sy'n rhan o'r cymunedau ym Merthyr Tudful, ni allwn nodi materion neu rwystrau penodol a allai eu hatal rhag defnyddio ein gwasanaethau neu ymgysylltu â'r Cyngor pan fydd angen. Mae dealltwriaeth glir o bwy sy'n byw o fewn yr ardal leol yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae cynnwys preswylwyr yn y broses o wneud penderfyniadau yn creu cymunedau cryf. Mae rhai grwpiau gwarchodedig yn wynebu rhwystrau sylweddol yn ddyddiol a all effeithio ar eu cyfranogiad mewn bywyd cymunedol a phan fyddant yn defnyddio gwasanaethau. Drwy ddeall y rhwystrau hyn, rydym yn gallu darparu gwell gwasanaethau i'n dinasyddion. Mae ymgysylltu nid yn unig yn ffordd allweddol o wella gwasanaethau, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb statudol mewn perthynas â Chydraddoldeb, fel y nodir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC). Mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau yn hanfodol i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu cymryd rhan mewn ymarferion ymgysylltu. Er bod mwy o fynediad ar gael yn ddigidol, mae rhwystrau o hyd sy'n atal dinasyddion rhag ymgysylltu. Mae trafodaethau ystyrlon yn bwysig i'n helpu i nodi'r hyn sydd bwysicaf i bobl, a all ein galluogi i fod yn fwy hyddysg wrth wneud penderfyniadau. Rydym am wneud mwy i ymgysylltu â grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli a'u cefnogi. Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol mewn amrywiaeth o wahanol fformatau a dulliau, a sicrhau bod ymgysylltu'n dechrau gyda digon o amser i gynnwys mwy o bobl i wella cyfathrebu a sicrhau bod gan bawb lais. Rydym am wella'r broses o gasglu data a'n

cwestiynau ar gyfer monitro cydraddoldeb wrth ymgynghori â'n cymunedau, gan ddarparu gwybodaeth mewn fformatau sy'n hawdd eu darllen gan ddefnyddio iaith glir.

Rydym yn awyddus i weithio tuag at gyrraeddiad Safon Aur Insport. Bydd cyrraeddiad llwyddiannus Safon Aur Insport yn sicrhau bod y Cyngor, a'i bartneriaid allweddol, yn gosod defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd y gwaith o ddatblygu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl anabl ym Merthyr Tudful, gyda chamau gweithredu yn uniongyrchol ymateb i ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd y Safon Aur Insport yn dangos sut yr ymgysylltwyd â defnyddwyr gwasanaeth a sut y mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi cydweithredu i ddiwallu'r angen hwn.

Gofynnwyd i'r staff gwblhau arolwg diwylliant yn 2019. Dadansoddwyd yr adborth ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu'n gynllun gweithredu a fydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023. Rydym am nodi unrhyw feysydd i'w gwella sydd wedi cael eu codi gan ein staff mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig.

Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)	Themâu o fewn 'A yw Cymru'n Decach?' 2018	Cysylltiad â Nodau Llesiant
Ailbennu Rhywedd, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Rhywedd, yr iaith Gymraeg.	Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cyfranogiad.	Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Gweithredoedd		
Adolygu a diweddarau'r rhestr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol o fewn y Fwrdeistref Sirol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau nodweddion gwarchodedig.		
Adolygu ac ail-sefydlu panel dinasyddion a fforwm staff.		
Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgynghori a chynnwys hyn ym mhob ymarfer ymgynghori a gynhelir yn y Cyngor.		
Atgyfnerthu prosesau mewnol er mwyn gwella'r manylion a geir mewn Asesiadau Effaith Integredig a phrydlondeb eu cwblhau.		
Parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad, gan sicrhau'r atgyfeiro cywir.		
Fel rhan o'n Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023, ymgysylltu'n aml â staff a dadansoddi'r ymatebion o'r arolwg diwylliant er mwyn penderfynu ar faterion a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.		
Hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn meysydd gwasanaeth yn gwisgo lanyardiau/bathodynau priodol.		
Gweithio tuag at gyflawni Safon Aur Insport Chwaraeon Anabledd Cymru.		

THEMA: CYDLYNIANT CYMUNEDOL

AMCAN: HYRWYDDO A HWYLUSO CYMUNEDAU CYNHWYSOL, DIOGEL A CHYDLYNOL.

Mae gan Ferthyr Tudful hanes balch a chyfoethog o fod yn gymuned amrywiol a chroesawgar. Fodd bynnag, gyda hyn daw cynnydd posibl mewn troseddau casineb ac eithafiaeth. Caiff troseddau a digwyddiadau casineb effaith andwyol a niweidiol ar gydlyniant cymunedol, a all, yn ei dro, gynyddu tensiynau cymunedol a chreu ymdeimlad o anoddefgarwch.

Mae cysylltiad cryf rhwng cydlyniant cymunedol a gwaith ar gydraddoldebau. Mae cymdeithas fwy cyfartal yn creu'r garreg sylfaen sy'n galluogi gwahanol grwpiau i ryngweithio ar sail gyfartal.

Rydym yn cydnabod bod angen mynd i'r afael o hyd â throseddau casineb dan adroddiadau. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o beth yw trosedd casineb a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod sut a ble i adrodd am droseddau casineb. Mae cymdeithas fwy cyfartal yn creu'r garreg sylfaen sy'n galluogi gwahanol grwpiau i ryngweithio ar sail gyfartal.

Mae cydlyniant cymunedol yn hanfodol ym mhob cymuned er mwyn galluogi gwahanol grwpiau o bobl i gyd-dynnu a galluogi ymdeimlad o berthyn. Mae hyn yn galluogi pobl i deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau. Mae cymuned lle mae gan bobl fwy o gyswllt a lle y maent yn gallu meithrin cydberthnasau gwell ag eraill yn cynyddu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau.

Rydym am sicrhau bod y cyhoedd a'r gweithlu yn gwybod sut a ble i adrodd am droseddau casineb a bod dioddefwyr troseddau casineb yn deall ac yn cael eu cynorthwyo i gael gafael ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

Rydym am ddarparu hyfforddiant i'r rhai o fewn y gweithlu sy'n gweithio'n agos gyda'r cyhoedd i allu adnabod troseddau casineb a gallu adrodd amdano'n hyderus.

Rydym am barhau i weithio gyda'n cymunedau, dathlu amrywiaeth a dod â phobl ynghyd i hyrwyddo cydlyniant cymunedol cadarnhaol. Rydym hefyd am barhau i rwydweithio â rhanddeiliaid eraill, cydweithio a chryfhau cysylltiadau.

Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)

Ailbennu Rhywedd, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Rhywedd.

Themâu o fewn 'A yw Cymru'n Decach?' 2018

Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cyfranogiad.

Cysylltiad â Nodau Llesiant

Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru iachach

Gweithredoedd

Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chynyddu adrodd yn y fwrdeistref sirol.

Ymgymryd ag ymarferion mapio cymunedol.

Cynnal digwyddiadau cymunedol, hyrwyddo cydlyniant cymunedol cadarnhaol a dathlu amrywiaeth.
Sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.
Parhau i weithio ar y cyd lle bynnag y bo modd a chryfhau cysylltiadau drwy rwydweithio.
Gweithredu prosiect Hyrwyddwr Cydraddoldeb o fewn ysgolion, fforymau ieuenctid a gyda gwirfoddolwyr.
Sicrhau y cynhelir hyfforddiant ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig ar gyfer staff a chynghorwyr.

THEMA: CREU GWEITHLU AMRYWIOL A CHYNHWYSOL		
AMCAN: CREU GWEITHLU CYNHWYSOL AC AMRYWIOL SY'N ADLEWYRCHU'R CYMUNEDAU YM MERTHYR TUDFUL.		
Yn genedlaethol mae angen sicrhau dealltwriaeth o'r gofynion i gasglu a defnyddio gwybodaeth am gyflogaeth ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Yn genedlaethol hefyd, mae angen i systemau TG neu atebion amgen gefnogi'r gwaith o gasglu, cofnodi a defnyddio'r wybodaeth angenrheidiol am gyflogaeth. Rydyn ni eisiau i weithwyr deimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd maen nhw'n gweithio ynddo, a bod yn nhw eu hunain. Neges Stonewall Cymru yw '<i>Mae pobl yn perfformio'n well pan maen nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain</i>'. Rydym am gael y gorau allan o'n gweithwyr. Rydym am gael gweithlu sy'n teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i ddarparu gwybodaeth amdany'n nhw eu hunain a diwylliant sy'n ddiogel ac yn gynhwysol. Mae angen i ni wybod mwy am amrywiaeth ein gweithlu. Mae angen i ni wneud mwy o waith monitro cydraddoldeb yn y gweithle er mwyn gwybod beth y mae angen inni ei wneud i wella gwasanaethau, gan gynnwys pobl wrth ei wraidd. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Fodd bynnag, rydym am wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, ar recriwtio ond hefyd ar hyd y daith yn y gweithle. Rydym am godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, gan ddarparu hyfforddiant a tharged cyfleoedd swyddi newydd i siaradwyr Gymraeg. Fel rhan o'n Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023, rydym am sicrhau bod unrhyw faterion a godir sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi a bod camau gweithredu'n cael eu datblygu.		
Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)	Themâu o fewn 'A yw Cymru'n Decach?' 2018	Cysylltiad â Nodau Llesiant
Ailbennu Rhywedd, Anabledd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Rhywedd, yr iaith Gymraeg.	Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cyfranogiad.	Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Gweithredoedd
Cefnogi a hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu o ran Cydraddoldeb fel bod cydraddoldeb yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori mewn rolau.
Gweithio ar y cyd i gefnogi digwyddiadau Pride drwy'r brand 'Cynghorau Balch'.
Gwella'r broses o fonitro a chasglu data ar gyfer y gweithlu ac atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodi data cydraddoldeb cwsmeriaid/gweithwyr.
Monitro ac adrodd ar nifer y staff sydd wedi cwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb drwy HR21.
Cynnal ymarfer glanhau data mewn perthynas â statws setliad ein cyflogeion.
Fel rhan o'n 'Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023 a dadansoddiad o ymatebion yr arolwg diwylliant, datblygu camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig.
Datblygu a gweithredu e-Ddysgu ar aflonyddu yn y gweithle i bob aelod o staff.
Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg.
Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i'r staff.
Targedu cyfleoedd swyddi newydd at siaradwyr Cymraeg
Adolygwch sut rydym yn casglu data ein gweithlu.
THEMA: RHYWEDD/CYFLOG CYFARTAL
AMCAN: SICRHAU TEGWCH O RAN CYFLOG AR DRAWS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL.
Fel Cyngor, mae'n ofynnol i ni ystyried unrhyw wahaniaethau cyflog sy'n bodoli ar draws y Cyngor a nodi amcan a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth a nodwyd. Yn genedlaethol er bod systemau cyflog yn bwysig o ran pennu tegwch cyflog, mae nifer o faterion eraill sy'n berthnasol wrth benderfynu beth caiff menywod a dynion eu talu. Mae'r rhain yn cynnwys arwahanu galwedigaethol; argaeledd gwaith llawn/rhan-amser mewn gwahanol grwpiau galwedigaethol, e.e. swyddi â chyflog is yn rhan-amser yn bennaf tra bod swyddi lefel uwch yn rhai llawn-amser yn bennaf; argaeledd polisïau a chymorth sy'n addas i deuluoedd a diwylliant sefydliadol. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Polisi cyflog Blynnyddol. Mae'r holl swyddi'n cael eu gwerthuso gan ddefnyddio cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (ac eithrio'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu prosesu trwy'r Cynllun HAY). Ni chymerir unrhyw wybodaeth bersonol am ddeilydd y swydd i ystyriaeth ar yr adeg hon. O ganlyniad, mae'r system raddio yn rhydd o unrhyw ragfarn anymwybodol. Darperir y graddau a'r dulliau talu ychwanegol sydd ar waith yn y Cyngor ar sail niwtral o ran y rhywiau. Felly, nid oes unrhyw anghysonderau amlwg rhwng rhyw yn ystod yr adrodd. Mae adrodd ar hyn yn ein helpu i ddeall maint ac achosion unrhyw fylchau cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Rydym am sicrhau bod ein data yn adlewyrchu ein gweithlu yn gywir ac rydym yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol o adrodd ar ein gwybodaeth monitro cydraddoldeb.

Rydym hefyd am godi mwy o ymwybyddiaeth o'r polisi gweithio hyblyg ac unrhyw bolisiau eraill a all helpu i hyrwyddo gwaith gwahanol i weddu i anghenion gwahanol ein gweithlu.		
Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)	Themâu o fewn 'A yw Cymru'n Decach?' 2018	Cysylltiad â Nodau Llesiant
Beichiogrwydd a Mamolaeth, Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Rhywedd.	Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cyfranogiad.	Cymru lewyrchus, Cymru fwy cyfartal, Cymru iachach.
Gweithredoedd		
Sicrhau bod data'r gweithle yn gyfredol ac adolygu'r data hwn yn rheolaidd er mwyn penderfynu ar gamau i gyflawni unrhyw ddyletswyddau a osodwyd arnom.		
Lle bo angen, gwneud newidiadau i bolisiau ac arferion y canfyddir eu bod yn ffactor cyfrannol i unrhyw anghydraddoldeb a nodwyd mewn cyflog.		
Parhau i gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog blynyddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.		
Adolygu polisiau Adnoddau Dynol a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd fel gweithio hyblyg, gwaith rhan amser, rhannu swyddi ac ati.		

THEMA: GWASANAETHAU HYGYRCH		
AMCAN: DEALL A DILEU'R RHWYSTRAU Y MAE POBL YN EU HWYNEBU WRTH DDEFNYDDIO EIN GWASANAETHAU.		
Gall y rhwystrau a brofir gan grwpiau ac unigolion gynnwys mynediad corfforol i adeiladau, mynediad i wybodaeth mewn fformatau priodol i weddu i'w hanghenion, trafnidiaeth, diweithdra, anawsterau iechyd meddwl, mynediad at dechnoleg ac ati. Rydym yn awyddus i wneud y canlynol: - Dysgu mwy am sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau i sicrhau bod y gwasanaethau a gynigiwn a sut rydym yn cynnig ein gwasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymuned. - Codi ymwybyddiaeth a gwella ein dealltwriaeth o'r materion y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau i gael gwared ar rwystrau. Bydd ymgysylltu'n effeithiol a monitro gwybodaeth yn ein helpu i roi gwybod i ni pa mor hygyrch yw gwasanaethau i'n cwsmeriaid. - Grymuso grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig i allu manteisio ar y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor. Mae mwy o wasanaethau'n cael eu defnyddio'n ddigidol sy'n galluogi dinasyddion i ymgysylltu mwy ac sy'n ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl. Mae angen i ni ystyried mecanweithiau ar gyfer cyrraedd pob aelod o'r gymuned. Sicrhau bod arwyddion clir, goleuadau a fformatau darllenadwy ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, gan sicrhau bod mynediad corfforol a mynediad digidol yn briodol.		
Nodweddion Gwarchodedig Perthnasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)	Themâu o fewn 'A yw Cymru'n Decach?' 2018	Cysylltiad â Nodau Llesiant

Ailbennu Rhywedd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu Gred, Hil, Oedran, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Rhywedd, yr Iaith Gymraeg.	Addysg, Gwaith, Safonau Byw, Iechyd, Cyfiawnder a Diogelwch Personol, Cyfranogiad.	Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Gweithredoedd		
Parhau i sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol a hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.		
Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog a bod tudalennau'n cael eu monitro a'u diweddaru yn y ddwy iaith ar sail rhaglen dreigl.		
Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn gyfredol a'i bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar fformat darllenadwy.		
Rhoi cyfle i bobl gael dogfennau mewn fformatau darllenadwy; 'mewn iaith glir'.		
Sicrhau bod gwefan a mewnrwyd y Cyngor yn hygyrch fel y gall pobl sydd ag anableddau ymgysylltu.		
Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff sy'n delio â chwsmeriaid ar ddarparu gwasanaethau hygyrch i bobl sydd ag anableddau.		

DATBLYGU'R AMCANION

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos gyda'r cyhoedd a'r gweithlu. Roedd arolwg ar-lein ar gael i'w gwblhau, anfonwyd negeseuon e-bost at staff a grwpiau cymunedol sy'n adlewyrchu'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gyda diweddariadau'n cael eu rhoi ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd wedi cyfarfod â'r Uwch Dîm Rheoli o fewn y Cyngor a'r Rheolwyr a fydd yn cyflawni'r camau yn y cynllun gweithredu.

Diben yr ymgynghoriad oedd sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i adolygu ein hamcanion cydraddoldeb ac i ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig wrth wneud hynny. Gofynnwyd i bobl ystyried y canlynol wrth ateb y cwestiynau;

- *Pa heriau y mae pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu o fewn Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?*
- *A yw'r amcanion yn ymdrin yn ddigonol â'r heriau hyn?*
- *Beth arall y gallem ei wneud i wella?*

PA ADBORTH A GAWSOM O'R YMGYNGHORIAD?

- Dylem ymgysylltu mwy â phobl yn y gymuned, gan sicrhau ein bod yn adlewyrchu cyfansoddiad demograffig a chyfrannau'r ardal. Dylem hefyd ymgysylltu â phobl cyn gynted â phosibl, cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, ac ystyried amseriad grwpiau ffocws i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n gweithio.

- Dylem arwain drwy esiempl a sicrhau bod gennym weithlu cynhwysol ac amrywiol fel ei fod yn cael ei adlewyrchu yn y gymuned ehangach. Hefyd, i siarad yn fwy agored am yr hyn y mae'n ei olygu i gael cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
- Mwy o ymwybyddiaeth o staff a hyfforddiant am nodweddion gwarchodedig ac addysg i staff ar faterion amrywiol. Addysg gadarnhaol am bobl sydd ag anableddau meddyliol a chorfforol.
- Sicrhau bod y ffordd rydym yn monitro gwybodaeth yn caniatáu i bawb gael eu cynrychioli. Dylai'r wybodaeth fod ar gael i bawb.
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithio'n fwy hyblyg. Rhoi cyfleoedd i fwy o bobl wneud cais am swyddi o fewn y Cyngor drwy eu gwneud yn allanol yn ogystal ag yn fewnol.
- Chwalu rhwystrau a sicrhau cyfle cyfartal i bawb.
- Ystyried adolygu polisïau a gweithdrefnau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu heriau a nodwyd.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb sydd ag anableddau ac ystyried darparu cyfleusterau niwtral o ran rhyw. Hefyd ystyried diweddaru ffurflenni monitro perthnasol i adlewyrchu rhywiau eraill.
- Dylai fod tegwch mewn cyflog rhwng dynion a menywod yn y Cyngor. Sicrhau bod menywod a dynion yn cael yr un cyfle yn y gweithle, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.

Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein hamcanion a'n camau gweithredu o fewn y cynllun.

CYFLAWNI, MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN

Caiff yr amcanion cydraddoldeb eu monitro a'u cyflawni drwy'r cynllun gweithredu. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol sy'n rhoi gwybodaeth am y canlynol;

- Cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynnydd ar yr amcanion a'r camau
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth

Caiff y cynllun ei adolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y camau gweithredu yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), sy'n addas i'r diben, a bod deddfwriaeth/canllawiau newydd yn cael eu hystyried yn y cynllun. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus.

Rydym yn croesawu sylwadau ar y cynllun ac os hoffech wybod mwy am y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cydraddoldeb
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Rhif Ffôn: 01685 725000
equalities@merthyr.gov.uk

Mae'r cynllun ar gael mewn fformatau eraill ar gais. I wneud cais, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

CRYNODEB O'R AMCANION A'R CAMAU GWEITHREDU

THEMA: YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD CYNHWYSOL

AMCAN: YMGYSYLLTU Â'N DINASYDDION I GYFRANOGI A SICRHAU BOD EU LLEISIAU'N CAEL EU CLYWED I DDEALL AC YMATEB I ANGHENION EIN CYMUNEDAU.

CAMAU GWEITHREDU	Adolygu a diweddarau'r rhestr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol o fewn y Fwrdeistref Sirol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau nodweddion gwarchodedig.
	Adolygu ac ail-sefydlu panel dinasyddion a fforwm staff.
	Gweithredu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori a chynnwys hyn ym mhob ymarfer ymgynghori a gynhelir yn y Cyngor.
	Atgyfnerthu prosesau mewnol er mwyn gwella'r manylion a geir mewn Asesiadau Effaith Integredig a phrydlondeb cwblhau.
	Parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad, gan sicrhau'r atgyfeirio cywir.
	Fel rhan o'n cynllun 'Aeiladu Sefydliad Iach', ymgysylltu'n aml â staff a dadansoddi'r ymatebion o'r arolwg diwylliant i benderfynu ar faterion a meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
	Hyrwyddo'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn gwasanaethau yn gwisgo lanyardiau/bathodynau priodol.
	Gweithio tuag at gyflawni Safon Aur Insport Chwaraeon Anabledd Cymru.

THEMA: CYDLYNIANT CYMUNEDOL

AMCAN: HYRWYDDO A HWYLUSO CYMUNEDAU CYNHWYSOL, DIOGEL A CHYDLYNOL.

CAMAU GWEITHREDU	Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chynyddu adrodd yn y fwrdeistref sirol.
	Ymgymryd ag ymarferion mapio cymunedol.
	Cynnal digwyddiadau cymunedol, hyrwyddo cydlyniant cymunedol cadarnhaol a dathlu amrywiaeth.
	Sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.
	Parhau i weithio ar y cyd lle bynnag y bo modd a chryfhau cysylltiadau drwy rwydweithio.
	Gweithredu prosiect hyrwyddwr cydraddoldeb o fewn ysgolion, fforymau ieuencid a gyda gwirfoddolwyr.
	Sicrhau y cynhelir hyfforddiant ar grwpiau nodweddion gwarchodedig ar gyfer staff a chynghorwyr.

THEMA: CREU GWEITHLU AMRYWIOL A CHYNHWYSOL	
AMCAN: CREU GWEITHLU CYNHWYSOL AC AMRYWIOL SY'N ADLEWYRCHU'R CYMUNEDAU YM MERTHYR TUDFUL.	
CAMAU GWEITHREDU	Cefnogi a hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu am Gydraddoldeb fel bod Cydraddoldeb yn cael ei gydnabod a'i ymgorffori mewn rolau.
	Gweithio ar y cyd i gefnogi digwyddiadau Pride drwy'r brand 'Cynghorau Balch'.
	Gwella'r broses o fonitro a chasglu data ar gyfer y gweithlu ac atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodi data cydraddoldeb cwsmeriaid/cyflogeion.
	Monitro ac adrodd ar nifer y staff sydd wedi cwblhau'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb drwy HR21.
	Cynnal ymarfer glanhau data mewn perthynas â statws setliad ein cyflogeion.
	Fel rhan o'n 'Cynllun Creu Sefydliad Iach 2020-2023 a dadansoddiad o ymatebion yr arolwg diwylliant, datblygu camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig.
	Datblygu a gweithredu e-Ddysgu ar aflonyddu yn y gweithle i bob aelod o staff.
	Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl pobl o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg.
	Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i'r staff.
	Targedu cyfleoedd swyddi newydd at siaradwyr Cymraeg
	Adolygu sut rydym yn casglu data ein gweithlu.

THEMA: RHYWEDD/CYFLOG CYFARTAL	
AMCAN: SICRHAU TEGWCH O RAN CYFLOG AR DRAWS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL.	
CAMAU GWEITHREDU	Sicrhau bod data'r gweithle yn gyfredol ac adolygu'r data hwn yn rheolaidd er mwyn penderfynu ar gamau i gyflawni unrhyw ddyletswyddau a osodwyd arnom.
	Lle bo angen, gwneud newidiadau i bolisïau ac arferion y canfyddir eu bod yn ffactor cyfrannol i unrhyw anghydraddoldeb a nodwyd mewn cyflog.
	Parhau i gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflog blyneddol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
	Adolygu polisïau Adnoddau Dynol a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd fel gweithio hyblyg, gwaith rhan amser, rhannu swyddi ac ati.

THEMA: GWASANAETHAU HYGYRCH**AMCAN: DEALL A DILEU'R RHWYSTRAU Y MAE POBL YN EU HWYNEBU WRTH DDEFNYDDIO EIN GWASANAETHAU.**

CAMAU GWEITHREDU	Parhau i sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael yn ddigidol a hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.
	Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog a bod tudalennau'n cael eu monitro a'u diweddarau yn y ddwy iaith ar sail rhaglen dreigl.
	Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn gyfredol a'i bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar fformat darllenadwy.
	Rhoi cyfle i bobl gael dogfennau mewn fformatau darllenadwy; 'mewn iaith glir'.
	Sicrhau bod gwefan a mewnrwyd y Cyngor yn hygyrch fel y gall pobl sydd ag anableddau ymgysylltu.
	Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff sy'n delio â chwsmeriaid ar ddarparu gwasanaethau hygyrch i bobl sydd ag anableddau.